

## ASESU RISG

**Asesu Risg** – Y nod yw sicrhau na fydd unrhyw un yn sâl, nac yn cael eu hanafu.

**Asesu risg** yw edrych yn ofalus ar beth, o fewn ein gweithgareddau, a allai beri niwed i bobl, **fel y gallwn bwysu a mesur a ydym wedi cymryd digon o gamau diogelu neu a ddylem wneud mwy i atal niwed.**

Mae angen paratoi Asesiad Risg ar gyfer pob un o weithgareddau'r Urdd. Ond mae Asesiadau Risg pwrpasol wedi eu paratoi yn barod ar gyfer ystod eang o weithgareddau ac maent ar gael ar wefan yr Urdd yn safle'r Arweinyddion. Mae Asesiadau Risg wedi eu paratoi ar gyfer gweithgareddau adran, chwaraeon a theithiau, a'r cyfan sydd angen ei wneud ydi addasu'r ffurflenni hyn ar gyfer eich gweithgaredd chi.

Perygl a risg - peidiwch â gadael i'r geiriau yma eich dychryn. Yn ei hanfod mae asesiad risg yn gydbwysedd rhwng y perygl a thebygolrwydd.

- Os yw'r difrifoldeb yn uchel a'r tebygolrwydd yn isel - popeth yn iawn.
- Os yw'r difrifoldeb yn isel a'r tebygolrwydd yn uchel - gall hynny fod yn iawn ond dylid ceisio cymryd camau i leihau'r tebygolrwydd.
- Os oes difrifoldeb uchel a thebygolrwydd uchel - dyma le mae'n rhaid cymryd camau i leihau'r risg.

**Mae perygl yn golygu unrhyw beth a allai achosi niwed, y risg yw'r tebygolrwydd, boed yn uchel neu'n isel, y caiff rhywun ei niweidio gan y perygl.**

### Camau i asesu risg gweithgaredd

1. Chwiliwch am/ Adnabod y peryglon
2. Penderfynwch bwy allai gael niwed a sut
3. Gwerthuswch ddifrifoldeb y risg
4. Ystyriwch pa mor debygol yw'r perygl o ddigwydd
5. Nodwch yn llawn y camau a gymerir i leihau'r risg



Am gyfarwyddiadau llawn, gweler y daflen isod a cysylltwch a'ch Swyddog Datblygu Lleol am enghreifftiau.

## CYNLLUNIO AC ASESIAD RISG

<b>Gweithgaredd:</b>	Gemau Potes
<b>Dyddiad:</b>	17 Medi XXXX
<b>Lleoliad:</b>	Neuadd yr adran

Yma nodwch y camau i'w cymryd i leihau'r risg o berygl – eto synnwyr cyffredin ac elfen o gynllunio trefnus.

Disgrifiwch y perygl

Y Perygl	Lefel y Risg	Sut i'w Rheoli
Damwain yn y gweithgaredd	Isel	Rheolau a chyfarwyddiadau clir o ddisgwyliadau ymddygiad cyn, yn ystod ac ar ôl y gemau.
Plentyn yn gadael y gweithgaredd heb ganiatad	isel	Rheolau clir, rhifau ffon argyfwng, a goruchwiliaeth. Staff yn hyblyg i ymateb i aelodau

Meddyliwch o ddifri pa mor debygol ydi hyn o ddigwydd ac aseswch y difrifoldeb – byddwch yn synhwyrol gan ddefnyddio synnwyr cyffredin.

Gwelwyd asesiad risg tân y lleoliad ac nid yw'r gweithgaredd(au) uchod yn ychwanegu at y risg tân.

Anghenion/ ystyriaethau gofal arbennig:

Esgidiau addas

Cofrestr aelodau, bocs cymorth cyntaf, rheolau'r neuadd, chwiban, *stopwatch*, gwobrau

Sicrhau fod y nifer o arweinyddion/ aelodau yn addas

Gofal wrth rannu aelodau i grwpiau – cymysgu'r oedran i gynorthwyo rhai gwan/iau

Nodwch yr hyn sydd eu hangen ar unigolion, y grŵp a'r arweinydd – Meddyliwch am bethau fel os yw'r tywydd yn newid, oes ffordd brysur i'w chroesi, oes person angen gofal arbennig?

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

**CYNLLUNIO AC ASESIAD RISG: ENGHRAIFFT**

Gweithgaredd:	Taith Bws i XXXX
Dyddiad:	20 Medi XXXX
Lleoliad:	

<b>Y Perygl</b>	<b>Lefel y Risg Isel/Canolog/uchel</b>	<b>Sut i'w Rheoli</b>
Damwain	Isel	Dilyn polisi cwmni bysiau, rheolau ymddygiad, polisi staffio
Llithrio / Syrthio / Baglu	Canolog	Gofal a rheolau clir / storio bagiau yn gywir
Colli aelod	Isel	Cyfri aelodau ar bob adeg, wrth fynd a gadael y bws. Cofrestr, rhif cyswllt yr arweinyddion gyda'r aelodau

**Anghenion / ystyriaethau gofal arbennig**

Unigol :	Pecyn bwyd (dibynnu ar y daith) gwregys a sedd unigol
Grŵp :	Gosod rheolau ymddygiad i'r grŵp cyn mynd ar y daith neu cyn i'r bws gychwyn
Arweinydd: bandiau	Cofrestr lawn, bocs cymorth cyntaf, bagiau du, bagiau chwydu, rhifau ffôn perthnasol, tystysgrifau iechyd, diogelwch
Awgrymiadau:	Ffôn symudol, chwiban, amserlen a manau stopio i gasglu plant

Llofnod:

Dyddiad:

**CYNLLUNIO AC ASESIAD RISG:**

Gweithgaredd:	
Dyddiad	
Lleoliad	

<b>Y Perygl</b>	<b>Lefel y Risg Isel/canolig/uchel</b>	<b>Camau a gymerwyd i leihau'r risg</b>

Gwelwyd asesiad risg tân y lleoliad ac nid yw'r gweithgaredd(au) uchod yn ychwanegu at y risg tân

<b>Anghenion/ ystyriaethau gofal arbennig:</b>          
--

Llofnod:

Dyddiad: